No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N. Marshallsea. J.M. Norman a E. Penn

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru) a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro) a G. Scott (Addysg Gymraeg)..

Hefyd yn bresennol: : Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), H.C. Hamilton a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 815 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 816 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Godfrey

## 817 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

## 818 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

819 CSC - CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMHOROL.

Cyflwynwyd yr eitem gan Brif Bartner Gwella Consortiwm Canolbarth y De (CCD) (Y Cwricwlwm, Cydlyniant ac Asesu), a Phennaeth Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Joseff. Roedd yn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch model yr ysgol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a dyluniad cwricwlwm y clwstwr.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Pennaeth yr wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Roedd y cwricwlwm newydd yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol a rhyddid i ysgolion ddewis yr hyn i'w addysgu, i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ar draws ysgolion, ac i fabwysiadu ymagwedd gyfannol at ddysgu.
- Roedd yr heriau a gyflwynwyd yn gysylltiedig â staff ac adnoddau, cyllidebau a'r cyllid yr oedd ei angen. Roedd y Cynghorydd Marshallsea yn croesawu'r newidiadau, a'r rhyddid yr oedd ysgolion yn ei gael i wrando ar safbwyntiau'r disgyblion, ac i'r disgyblion ddylanwadu ar yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu.
- Fel ysgol Gatholig, roedd gan Sant Joseff bellach fwy o ryddid yn eu hymdriniaeth â ffydd o fewn y cwricwlwm.
- Roedd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi'u cynnwys drwy roi llais y plentyn yn gyntaf, gwahaniaethu profiadau dysgu, a chefnogi Cynorthwywyr Cymorth Dysgu.
- Yn yr ychydig flynyddoedd nesaf o waith y clwstwr byddai'r ffocws ar agweddau fel geirfa pwnc-benodol, dull asesu cyffredin a chydweithio.

Diolchodd y Pwyllgor i'r ddau gynrychiolydd am y cyflwyniad a nodi ei gynnwys.

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys y cyflwyniad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad.

820 YMGYNGHORIAD STATUDOL I EHANGU YSGOL IOLO MORGANWG O 210 LLE I 420 O LEOEDD O FIS MEDI 2025 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd gan y Rheolwr Gweithredol (Strategaeth ac Adnoddau).

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025. Yn ogystal â hynny, roedd y cynnig yn cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth feithrin o 66 i 96 o leoedd meithrin rhan amser a sefydlu cyfleuster ychwanegol ar y safle i gefnogi addysg oedolion a throchi. Byddai uned hunangynhaliol yn darparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion, yn enwedig y rhai sy’n byw o fewn y datblygiad preswyl.

Cyflwynwyd y cynnig o dan adran 2.3 o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgolion, gan gynnwys cynyddu capasiti'r ysgol.

Byddai angen i'r Cabinet ystyried adborth a dderbynnir drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Ar ôl ystyried yr ymatebion, byddai angen i'r Cabinet wedyn wneud penderfyniad ynghylch y camau nesaf mewn perthynas â'r cynnig.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, amlygodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod integreiddio ag addysg oedolion a throchi'r Gymraeg yn agwedd gyffrous ar y cynnig i ehangu'r ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges fod yr ymgynghoriad wedi'i gynllunio ers cryn amser a chynigiodd fod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i ehangu.

Yn dilyn hynny, cynigiodd swyddogion y manylion canlynol.

- Byddai'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 11 Ebrill 2023, ac adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 25 Mai, 2023 lle byddai'r Cabinet yn ystyried yr holl ymatebion a oedd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol.
- Penderfynwyd ar 420 o lefydd i fod yn uchelgeisiol a chreu galw lle bo modd. Roedd y niferoedd wedi'u seilio ar ddosbarthiadau o 30 o ddisgyblion.
- Byddai denu disgyblion yn her, yn enwedig gan fod ysgol cyfrwng Saesneg yn cael ei hadeiladu yn yr ardal.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a chefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morgannwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Cynnig cefnogaeth y Pwyllgor i'r bwriad i ehangu Ysgol Iolo Morgannwg, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

821 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2021-2022 (CYF) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw’r Cabinet at y cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024 a chamau eraill a gymerwyd i wella cydraddoldeb i bobl sy’n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg. Roedd yn crynhoi'r hyn yr oedd Gwasanaethau wedi'i wneud i gasglu a dadansoddi data cydraddoldeb ar ddefnydd pobl â nodweddion gwarchodedig o'u gwasanaethau. Nodai'r hyn yr oeddent wedi'i wneud i gyflwyno

gwelliannau yng nghyfnod adrodd 2021 i 2022. Roedd yn gwneud sylwadau ar y cynnydd a wnaed gyda phob un o'r amcanion cydraddoldeb, a lle'r oedd angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ei ymdrechion. Roedd yn cyfeirio at atodiadau a ddangosai'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan Wasanaethau, ac adroddiad manwl ar wybodaeth cyflogaeth.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr wybodaeth ganlynol.

- Roedd y Cyfarwyddwr yn hapus i adrodd cais Pwyllgor y Cabinet yn ôl, y dylai Amcan 3 gynnwys anghenion iechyd meddwl, llesiant a niwrowahanol.
- Bu cynnydd yn y flwyddyn ddiwethaf yn gysylltiedig â hyfforddiant gwrth-hiliaeth mewn ysgolion.
- Casglwyd data o ystod o ffynonellau ac anogwyd ymatebion dienw gan y staff.
- Roedd safle'r Cyngor ym Mynegai Stonewall wedi gwella, ac roedd y cynllun gweithredu dilynol ar gyfer gwelliant pellach yn cynnwys cymorth i'r gymuned y tu allan i sefydliad y Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD – BOD y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig gan gynnwys adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2021-2022 (Atodiad A) yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Gan roi sylw i gynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

822 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 IONAWR 2023 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Ariannol, a rhoddodd y newyddion diweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2022 hyd 31 Ionawr, 2023. Roedd y manylion fesul cynllun wedi'u dangos yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth, o gymeradwyaeth y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 hyd 31 Ionawr, 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau a geisiwyd o fewn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a Rhaglenni Cyfalaf y blynyddoedd i ddod.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ailbeiriannu neu aildendro cynllun, gan achosi oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn dweud bod angen disgwyl y hir am ddeunyddiau, a bod prinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi mai cost y rhaglen gymeradwy gyfredol oedd £88.2m, ond roedd hi'n bwysig nodi bod hynny'n annhebygol o gael ei gyflawni, a gofynnwyd am lithriant o £8m.  Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos yn rhan o'r trefniadau i fonitro prosiectau'n rheolaidd ar y cyd â rheolwyr prosiect a noddwyr.  Byddai llithriant pellach yn cael ei adrodd fel rhan o'r adroddiad Alldro Cyfalaf.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Rheolwr Cymorth Ariannol yr wybodaeth a ganlyn:

- Roedd grantiau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i'w defnyddio ar gyfer amgylcheddau ac offer dysgu.
- Byddai grant ffocws cymunedol yn helpu ysgolion i ddod yn fwy agored i'r gymuned leol.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach felly penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor

(2) NODI'R defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad

(3) NODI'R defnydd o Bwerau Brys o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm â'r adroddiad.

(4) NODI'R newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

823 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2023 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Ariannol.  Ei bwrpas oedd hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd yn gysylltiedig â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Ionawr, 2023.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor, yn weithredol ac yn ariannol, oherwydd goblygiadau parhaus yr Argyfwng Costau Byw, pwysau chwyddiant ac effaith barhaus Covid-19.

Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn gysylltiedig â'r setliad dyfarniad cyflog ychwanegol, chwyddiant cyffredinol yn arbennig mewn meysydd fel trafnidiaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio. Roedd pwysau chwyddiant a'r galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd £1.5m yn ychwanegol o'r gyllideb wedi'i ddyrannu i ysgolion yn 2022/23 er mwyn cyfrannu at gostau ychwanegol dyfarniad cyflog 2022/23. Roedd hyn wedi'i ariannu o Incwm Treth Gyngor ychwanegol a ragwelwyd yn 2022/23, ac felly roedd y Gyllideb Sylfaenol wedi'i chynyddu i adlewyrchu'r incwm a ragwelwyd.

Roedd y tabl isod yn dangos sefyllfa'r alldro rhagamcanol fesul Cyfarwyddiaeth.

| Cyfarwyddiaeth | Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23<br><br>£000oedd | Alldro Rhagamcanol 2022/23<br><br>£000oedd | Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn<br><br>£000oedd | Amrywiant Ffafriol/Andwyol<br><br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu a Sgiliau | 122,578 | 129,623 | (7,045) | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 80,742 | 80,079 | 663 | 0 |
| Yr Amgylchedd a Thai | 48,190 | 50,535 | (1,445) | 900 |
| Adnoddau Corfforaethol | 2,208 | 5,935 | (3,267) | 460 |
| Lle | 4,088 | 5,278 | (1,116) | 74 |
| Polisi | 33,764 | 32,330 | 0 | (1,434) |
| Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn | (996) | (996) | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 290,574 | 302,784 | (12,210) | 0 |

Ar hyn o bryd, roedd y gyllideb yn gytbwys ar y cyfan ar ôl tynnu £12.210m i lawr o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd tanwariant yn y Gyllideb Polisi a rhywfaint o arian wedi'i dynnu i lawr o gronfeydd gwasanaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer pwysau cyflog ychwanegol mewn rhai Cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, byddai angen lliniaru'r pwysau ar drafnidiaeth ysgol wrth nesáu at ddiwedd y flwyddyn.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i osod ar gyfer y flwyddyn, ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyrraedd eu targedau. Roedd rhai problemau'n parhau yn gysylltiedig â thargedau arbed a oedd heb eu cyrraedd o flynyddoedd cynt, ond lliniarwyd hyn yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth drwy swyddi gwag yn 2022/23, ac roedd hyn wedi'i ddatrys ar gyfer cyllideb 2023/24.

Roedd amrywiadau andwyol yn cael eu rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau eleni, a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y problemau hyn yn y tymor byr.

Yn dilyn eu cyflwyniad, dywedodd y Rheolwr Cymorth Ariannol, mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, fod cynnydd mewn costau trafnidiaeth ysgol yn tarddu

o gostau am yrwyr, tanwydd a llwybrau ychwanegol yr oedd eu hangen. Ychwanegodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod y costau cynyddol hefyd wedi'u hysgogi gan dueddiadau mewn lefelau ADY a chymhlethdod anghenion o'r fath, yn ogystal â chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a bod hyn yn creu sefyllfa heriol o ran y gyllideb.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI'R trefniadau i wrthbwyso'r gorwario rhagamcanol yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI Cyllideb Refeniw ddiwygiedig 2022/23 o £290.574m sy'n adlewyrchu cynnydd o £1.5m ar gyfer Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig i'w ariannu o Incwm Treth Gyngor ychwanegol.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad i hysbysu aelodau o'r alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23, i ymateb i bwysau cyflog sy'n dod i'r amlwg a phwysau chwyddiant prisiau yn 2022/23 a sicrhau bod cyfraniad yn cael ei wneud i gost ychwanegol gwobr cyflog 2022/23 mewn Ysgolion.

824 CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR YR HYDREF 2022 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Bartner Gwella CCD.

Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniadau arolygiadau ysgol Estyn yn ystod tymor yr hydref 2022.

Bu Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn addysg ledled Cymru. Yn ystod tymor yr hydref 2022, cynhaliwyd arolygiadau mewn pedair ysgol gynradd (Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sain Helen, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn, Ysgol Pen y Garth, ac Ysgol South Point) ac un ysgol uwchradd (Ysgol Uwchradd Pencoedtre). Gosodwyd dwy o'r ysgolion (Ysgol Pen y Garth ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre) mewn categori dilyniant statudol, gyda'r ddwy mewn Mesurau Arbennig.

O'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y tymor, nodwyd un astudiaeth achos o arfer ddiddorol neu arloesol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn. Yn ogystal â hynny, yn ystod tymor yr hydref cyhoeddwyd tair astudiaeth achos o arfer ddiddorol neu arloesol o ysgolion Bro Morgannwg a arolygwyd yn nhymor y

gwanwyn 2022. Deuai un o'r astudiaethau achos hyn o Ysgol Stanwell a'r ddwy astudiaeth achos arall o Ysgol Uwchradd Whitmore.

Yn dilyn hynny, rhoddodd Pennaeth Ysgol Uwchradd Whitmore gyflwyniad ar Arfer Da Estyn, gan esbonio wrth y Pwyllgor yr agweddau ar waith yr ysgol yr oedd Estyn wedi'u nodi'n enghreifftiau o arfer diddorol neu arloesol.

Yn dilyn y cyflwyniad, ychwanegodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant fod Canolfan Adnoddau Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth yn hynod lwyddiannus ac yn rhan annatod o'r ysgol. Cytunodd Pennaeth yr Ysgol â hynny gan ddweud bod Estyn hefyd wedi cydnabod yr arfer da a welwyd yn y Ganolfan Adnoddau ASD.

Nododd y Cynghorydd Marshallsea, gydag Ysgol Uwchradd Pencoedtre mewn mesurau arbennig, fod yn rhaid bod yn ofalus i beidio lledu'r bwlch rhwng cyrhaeddiad dwy ysgol uwchradd y Barri. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Prif Bartner Gwella fod y Cynllun Gweithredu a'r Datganiad Gweithredu yn gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn gynnwys amrywiaeth eang o gymorth, gan gynnwys secondiad, Pennaeth Gweithredol newydd, Pennaeth Cynorthwyol sy'n arbenigo mewn ADY a Llesiant a chefnogaeth barhaus yn nhermau ADY a phresenoldeb. Roedd sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn brif flaenoriaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Hodges y dylid ychwanegu dau argymhelliad arall at y rhai yn yr adroddiad, sef y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu llythyr at yr ysgolion a arolygwyd yn nhymor yr Hydref lle nad oedd angen unrhyw ymweliad dilynol gan Estyn, i'w llongyfarch am ganlyniadau eu harolygiad. Yr ail oedd y dylai'r Pwyllgor ailgyflwyno system Panel i weithio o amgylch yr ysgolion mewn mesurau arbennig, i ymweld â'r ysgolion a siarad â'u Huwch Dimau Arwain fel bod y Pwyllgor yn fwy ymwybodol o'r heriau o flaen yr ysgolion hyn.

Wedi hynny dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod panel aml-asiantaeth, yn gynnwys Estyn, CCD, yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, eisoes wedi'i sefydlu, ac y byddai sefydlu Panel ychwanegol i graffu ar yr ysgol yn creu pwysau ychwanegol. Nid oedd felly'n cynghori y dylid creu Panel o'r fath ar hyn o bryd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod ar hyn o bryd yn anelu i drefnu ymweliadau i'r Pwyllgor ag amrywiaeth o ysgolion, ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau ar y materion hyn i ddechrau ac ailystyried ailsefydlu Panel yn ddiweddarach. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau wrth y Pwyllgor fod trefniadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i ddiweddaru'r Aelodau ynghylch cynnydd yr ysgolion a oedd wedi cael eu gosod mewn categori Estyn.

Canmolodd yr Aelod Cabinet Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg y modd yr oedd Ysgol Uwchradd Whitmore yn cefnogi ei staff a sut roedd hynny'n effeithio ar ei disgyblion.. Dywedodd Pennaeth yr Ysgol, mewn ymateb i ymholiadau gan y Pwyllgor, fod yr ysgol wedi anelu i gael gwared â phwysau allanol ar staff, a chyflwyno'r gwaith pwysicaf a rhaglenni datblygu staff yn lle hynny, er enghraifft.

Eiliodd y Cynghorydd Asbrey gynnig y Cynghorydd Hodges, gan ddweud bod Paneli o'r fath wedi bod yn 'wyneb cyfeillgar' wrth ystyried ysgolion yn y gorffennol.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau y byddai angen pwrpas neu thema benodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwasanaeth, er enghraifft, ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio ar ysgolion. Mewn ymateb i ymholiad y Cadeirydd, dywedodd y Prif Bartner Gwella a'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) yn cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch y ddwy ysgol mewn mesurau arbennig, yn gysylltiedig â'r Datganiad Gweithredu a nodi'r personél, y tasgau a'r canlyniadau allweddol sydd eu hangen i gychwyn gwella, ac roeddent yn hyderus na cheid unrhyw achos o ddyblygu gwaith.

Nid oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais, ni dderbyniwyd y Cynnig i ailsefydlu Paneli o blith aelodaeth y Pwyllgor i ystyried ysgolion yr oedd angen eu gwella.  Wedi hynny, penderfynwyd:

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD canlyniadau arolygu'r pum ysgol a arolygwyd yn ystod tymor yr hydref yn cael eu nodi

(2) BOD y gofynion dilynol ar gyfer y ddwy ysgol mewn mesurau arbennig, a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro, yn cael ei nodi.

(3) BOD llythyrau yn cael eu hanfon gan y Pwyllgor i longyfarch y tair ysgol gafodd eu harolygu yn ystod tymor yr hydref oedd angen 'Dim Camau Pellach' gan Estyn.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-2) Er mwyn bod Aelodau'n ymwybodol o ganfyddiadau Estyn ynghylch ysgolion lleol a gweithredoedd sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddwy ysgol mewn categori Camau Pellach Estyn.

(3) Mynegi i'r ysgolion dan sylw longyfarchiadau’r Pwyllgor ar eu canlyniadau arolygu cadarnhaol.

825 CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE: ADRODDIAD CRAFFU AWDURDOD LLEOL BLYNYDDOL (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Bartner Gwella, y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Dysgu Cwricwlaidd a Phroffesiynol Consortiwm Canolbarth y De (CCD).  Roedd CCD yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran pum awdurdod lleol.  Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am waith CCD a'i gyfraniad at wella ysgolion ar draws y rhanbarth.  Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith CCD a'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am gyfraniad CCD, a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol (ALl) i godi safonau mewn ysgolion ar draws Bro Morgannwg.

Roedd gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn chwarae rhan hollbwysig er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r ysgolion.  Ers

2012, roedd Consortiwm Canolbarth y De wedi cyflenwi agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion ar ran y pum awdurdod: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith y Consortiwm ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2021 i 2022, a blwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Ebrill 2022.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd Swyddogion o CCD yr atebion canlynol mewn ymateb i gwestiynau'r Cynghorwyr.

- Roedd amrediad eang o gymorth yn cael ei ddarparu drwy CCD mewn perthynas â gwaith ysgol-i-ysgol.
- Gellid dangos yr effaith ar ddeilliannau addysgol y disgyblion, safon yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth yn ysgolion Bro Morgannwg drwy'r arferion a'r adnoddau a oedd yn cael eu rhannu, er enghraifft.
- Roedd ymarferwyr arweiniol yn darparu cymorth penodol i ysgolion unigol.
- Roedd y ffaith bod model CCD yn dod â chapasiti a dysgu ynghyd ar draws y rhanbarth, gan nodi a rhannu arfer da, ymhlith ei gryfderau neilltuol.
- Cafodd cyfran fawr o gyllid gan awdurdodau lleol i CCD ei dosbarthu i'r ysgolion, er enghraifft, i gyllido gwaith ymarferwyr arweiniol.
- Gellid cael cymorth wedi'i dargedu i ysgolion o ysgolion eraill oddi mewn neu oddi allan i Fro Morgannwg.
- Roedd gwaith wedi'i gyflawni i ddangos gwerth am arian CCD i awdurdodau lleol. Cafodd CCD ei ddwyn i gyfrif gan eu Cydbwyllgor ar y mater hwn, a byddai ystod o adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg ynghylch hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai haen o arbenigwyr yn cyflawni rôl debyg pe na bai Llywodraeth Cymru wedi sefydlu CCD i gronni arbenigedd a dod â'r arferion a'r ymarferwyr gorau ynghyd. Ychwanegodd y byddai'r angen am sefydliad o'r fath yn parhau, ac y bu adborth gan ysgolion am waith CCD yn gadarnhaol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn Atodiad A sy’n amlinellu effaith gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Er mwyn bod Aelodau yn ymwybodol o effaith gwaith Consortiwm Canolbarth y De ar ysgolion ym Mro Morgannwg.

826 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Gofynnai i'r Aelodau gymeradwyo'r camau â blaenoriaeth, fel yr oeddent wedi'u hadlewyrchu

mewn Cynlluniau Gwasanaeth, a'r targedau perfformiad gwasanaeth a gynigiwyd ar gyfer y cyfnod 2023/2024 a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a oedd oddi mewn i gylch gwaith y Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn gwasanaethau (fel yr amlinellwyd mewn Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad a oedd oddi mewn i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn. Roedd y rhain yn amlinellu'r meysydd ffocws penodol a oedd yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/2024, fel yr oedd yn gyson â phedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Byddai bwrw ymlaen â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol o gymorth i fodloni rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  Roedd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor yn gysylltiedig ag adolygu a gosod amcanion, parhau i adolygu perfformiad ac adrodd ar berfformiad, gyda ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion y Fro.

Yn unol â dyletswyddau statudol roedd yr Amcanion Llesiant yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.  O ganlyniad i hyn, wrth symud ymlaen i 2023/2024, roedd Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol a'r ymrwymiadau cysylltiedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024 (a oedd wedi'i gynnwys ym mhapurau cefndir yr adroddiad) yn berthnasol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion Bro Morgannwg a chyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Bu pob Pwyllgor Craffu yn ystyried Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ym mis Rhagfyr 2022 ac roedd barn y pwyllgorau hynny, ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid eraill allweddol, wedi goleuo'r Cynllun terfynol, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Chwefror, 2023, ac a gyfeiriwyd i sylw'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023 i'w gymeradwyo'n derfynol.  Roedd yr ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 wedi'u hadlewyrchu mewn 15 Cynllun Gwasanaeth a oedd wedi'u darparu, er gwybodaeth, ym mhapurau cefndir yr adroddiad.  Roedd y cynlluniau hyn yn dangos sut y byddai meysydd gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawniad cyffredinol y pedwar Amcan Llesiant, a sut y byddai adnoddau'n cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu edrych ar gyfraniadau'r gwasanaethau (drwy'r gweithgareddau a gynlluniwyd a'r mesurau perfformiad a'r targedau cysylltiedig a gynigiwyd) a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, a fyddai'n cefnogi cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2023/24.  Roedd y rhain wedi'u nodi yn Atodiad A a B ynghlwm wrth yr adroddiad.

Ar ôl edrych arnynt, gofynnwyd i'r Aelodau argymell i'r Cabinet y gweithgareddau cynlluniedig (fel y'u hamlinellwyd yn y Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad gwasanaeth cysylltiedig a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, fel y prif ddull o fonitro, mesur ac adrodd yn chwarterol ar berfformiad Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24.  Roedd y rhain wedi'u nodi yn Atodiad A a B ynghlwm wrth yr adroddiad.

Yn dilyn eu cyflwyniad, ac mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y broses o ddatblygu'r targedau perfformiad a'r gweithgareddau lefel gwasanaeth yn cynnwys cynnal hunanwerthusiad i amlygu meysydd i'w gwella, ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y Cynllun Datblygu Blynyddol y cyfrannodd yr Aelodau iddo, a throsglwyddo'r blaenoriaethau cytunedig i gynlluniau gwasanaeth, gan amlinellu targedau i sicrhau'r blaenoriaethau yn y CCB. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod llinyn parhaus yn cydgysylltu'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Datblygu Blynyddol, Cynlluniau Gwasanaeth a'r Cynlluniau Tîm hyd at dargedau unigol yn adolygiadau datblygu perfformiad cydweithwyr.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24 (fel y maent wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau'r Gwasanaeth), fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD y mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024, yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B i'r adroddiad), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y gweithgareddau a gynlluniwyd (fel y'i nodwyd yng Nghynlluniau'r gwasanaeth) sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro a mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2023/2024.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2023/2024.

827 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Ei bwrpas oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 ar gyfer cyfnod 1 Ebrill, 2022 hyd 31 Rhagfyr, 2022 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 a oedd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch3 i adlewyrchu’r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Cafodd 93% (353/380) o’r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol statws perfformiad Gwyrdd i adlewyrchu’r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, rhoddwyd statws Ambr i 1% (3) o’r gweithgareddau a gynlluniwyd a statws Coch i 6% (24) o weithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 128 o fesurau perfformiad a oedd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol, adroddwyd data ar gyfer 33 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 58% (19) o fesurau, statws perfformiad Ambr i 6% (2) a statws perfformiad Coch i 36% (12). Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol i 95 o fesurau. Roedd 22 o'r rhain yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022/23, 67 arall yn gysylltiedig â mesurau a oedd yn cael eu monitro'n flynyddol, a 6 yn fesurau lle na roddwyd unrhyw ddiweddariad.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau cynlluniedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, cafodd 99% ohonynt (71 o 72) statws perfformiad Gwyrdd, ac 1% (1) statws Coch. O'r 5 mesur a adroddwyd, cafodd 60% (3) statws perfformiad Gwyrdd a 40% (2) statws Coch.

Y chwarter hwn, roedd yr eithriadau o ran perfformiad wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau a geisiwyd gan Aelodau Etholedig yn dilyn gweithdy ym mis Gorffennaf 2022 i fonitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Er rhwyddineb wrth gyfeirio, roedd eithriadau perfformiad a oedd yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn amlygu statws cyfredol camau gweithredu a nodwyd yn goch yn y chwarter blaenorol i ddangos y trywydd, hynny yw a oedd camau unioni a gynigiwyd wedi'u cymryd i symud ymlaen â'r gweithredoedd hyn.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau unioni a gynigiwyd i fynd i'r afael ag agweddau lle nodwyd tanberfformiad. Ar ôl ystyried, argymhellwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu sylwadau ac unrhyw argymhellion i sylw'r Cabinet er ystyriaeth.

Ar ôl y cyflwyniad, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch graddfeydd amser er mwyn symud gweithgareddau coch ymlaen i ambr a gwyrdd, dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r dyddiad terfyn ar gyfer sicrhau cynnydd oedd diwedd Mawrth 2023. Byddai rhai camau'n cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf mewn Cynlluniau Gwasanaeth, gan eu bod yn feysydd ffocws parhaus. Roedd cynnydd yn cael ei wneud yn gysylltiedig â'r dangosydd ar gyfeirio digwyddiadau diwylliannol i sylw'r cyhoedd. Ychwanegodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau mai'r ffocws dan sylw oedd gwella trefniadau i farchnata'r digwyddiadau hynny ymhlith y cyhoedd, ac roedd gwaith yn dechrau dwyn ffrwyth yn gysylltiedig â'r prosiect hwn.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, penderfynodd y Pwyllgor:

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion o ran perfformiad a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.